Ysgol Penrhyn-coch

Bellach mae prysurdeb y tymor yn amlwg iawn yng ngweithgareddau'r ysgol. Ail-ddechreuodd y tymor pêl-droed ac mae tîm yr ysgol, er yn dîm ifanc, yn un brwdfrydig iawn. Buont yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Tarian Waunfawr a Chwpan R.A.F.A. gan wneud gwaith canmoladwy.

Mae'r merched hwythau yn edrych ymlaen yn eiddgar at dymor arall ym myd yr hoci a'r bêl-rwyd. I hybu'r ymarfer ar gyfer y tymor daeth bechgyn a merched o ysgolion y borth a Threfeurig atom un prynhawn a chafwyd sesiwn hwyliog o bêl-droed a phêl-rwyd cyn troi am adref tua phump o'r gloch.

Bu nifer o blant dosbarth 4 yn llwyddiannus yn y Prawf Medrusrwydd Beicio ychydig cyn gwyliau'r haf a chyflwynwyd tystysgrifau iddynt un bore gan y Prifathro. Gobeithio y gwnewch oll gofio'r rheolau a gweithredu'n gyfrifol pan fyddwch ar eich beic ar hyd ffordd gul y pentref.

Braf oedd cael y cyfle ddiwedd Medi i groesawu dau ffrind da i'r ysgol yn ôl i'n plith, sef Mr R J Evans, Aberystwyth, y cyn-brifathro, a Mrs Eirian Morgan Tan-y-bryn, ein cyn-ofalwraig. Gorchwyl Mr Evans oedd cyflwyno rhodd i Mrs Morgan at ei hymadawiad â'r ysgol ar ôl cyfnod o bymtheg mlynedd yn y swydd. Mewn geiriau dethol a phwrpasol mynegodd Mr Evans ei ddiolch